

Gwneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl?



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

DECHR
AU

Mae'r Lwfans Myfyrwyr Anabl yn gyllid astudio penodol ychwanegol i fyfyrwyr anabl trwy'r corff cyllido myfyrwyr yn y Deyrnas Unedig.

- e.e. offer, meddalwedd, costau teithio neu gymorth cynorthwydd anfeddygol ac mae'n seiliedig ar angen unigol sy'n gysylltiedig ag anabledd.
- Gall myfyrwyr wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl ar yr un pryd â gwneud cais am gyllid craidd neu ar unrhyw adeg yn ystod eu cwrs.

Rhaid bod myfyrwyr yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ac yn astudio lleiafswm dwysedd o 25% i gael eu hystyried am Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Mae myfyrwyr yn llenwi ffurflen gais ac yn darparu tystiolaeth addas o'u hanabledd (anhawster dysgu penodol, iechyd meddwl, cyflyrau corfforol neu iechyd, namau synhwyraidd, ASD ac ati).

- Gall y Gwasanaethau Anabledd ym Mhrifysgol Bangor gynorthwyo myfyrwyr i llenwi'r ffurflen gais am Lwfans Myfyrwyr Anabl trwy apwyntiad wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Bydd yr asesydd anghenion yn rhoi ei argymhellion mewn adroddiad yn seiliedig ar ei asesiad o anghenion astudio'r myfyriwr.

- Efallai y bydd rhaid i'r Gwasanaeth Anabledd gysylltu ag aelod o ysgol academiaidd am wybodaeth ychwanegol pe bai'r aseswr anghenion yn gofyn am fwy o fanylion am yr amgylchedd addysgu a dysgu neu ddulliau asesu cwrs penodol.

Os byddant yn llwyddiannus, gofynnir i fyfyrwyr drefnu asesiad anghenion. Dylent gyfeirio at eu llythyr cymhwystra am ragor o wybodaeth.

- Os na fyddant yn llwyddiannus, bydd y corff cyllido yn darparu manylion ynglŷn â'r meini prawf sydd heb eu bodloni. Gall y Gwasanaeth Anabledd gefnogi myfyrwyr trwy ddarparu gwybodaeth ac arweiniad ar fodloni'r meini prawf hyn.

Bydd y corff cyllido yn adolygu'r cais cyn pen 10 diwrnod gwaith ac yn hysbysu myfyrwyr trwy lythyr am y canlyniad.

Anfonir yr adroddiad asesu anghenion at y corff cyllido cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r myfyriwr gadarnhau ei fod yn hapus gyda'r cynnwys a'r argymhellion yn yr adroddiad.

Bydd y corff cyllido yn adolygu'r argymhellion ac yn cadarnhau'r hyn y byddant yn cytuno i'w ariannu trwy ail lythyr a anfonir at y myfyriwr.

Bydd myfyrwyr yn cael yr ail lythyr, a bydd Bangor yn cael copi o'r llythyr fel arfer.

- Os yw'r myfyriwr wedi rhoi caniatâd i rannu, bydd y Gwasanaeth Anabledd yn cefnogi myfyrwyr gydag unrhyw ymholiadau gan y corff cyllido.

Ar ôl i'r Gwasanaeth Anabledd gael copi o'r ail lythyr, byddwn yn trefnu unrhyw gymorth cynorthwydd anfeddygol a argymhellir ac yn cysylltu â'r myfyriwr.

Cysylltiadau defnyddiol:

Gwybodaeth y llywodraeth am y Lwfans Myfyrwyr Anabl:
<https://www.gov.uk/disabled-students-allowance-dsa>
Canolfan Access Prifysgol Bangor:
<https://www.bangor.ac.uk/access-centre>

GORFF
EN

Bydd rhaid i fyfyrwyr archebu unrhyw offer arbenigol y cytunwyd arno, yn ogystal â threfnu eu hyfforddiant technoleg gynorthwyol trwy ddilyn y cyfarwyddiadau a ddarperir yn yr ail lythyr.

- Unwaith eto, gall y Gwasanaeth Anabledd gynorthwyo myfyrwyr i wneud hyn os ydynt yn cael unrhyw anhawster.